
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 No. 3392

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn) (Cymru) (Diwygio) 2006

Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993

3.—(1) Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(1) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 5(a) o Atodlen 1, yn lle “section 43(5)” rhodder “section 43(4A)(b), (5)”.

(3) Ym mharagraff 1 o Ran I o Atodlen 2—

(a) Yn nodyn o dan y pennawd “Rural Rate Relief”—

(i) ar ôl y geiriau “From 1 April 2002” rhodder “until 31 March 2007”; a

(ii) mae trydydd paragraff wedi'i ychwanegu—

“From 1 April 2007 the Rural Rate Relief scheme is revoked and replaced by the National Assembly for Wales’s Small Business Rate Relief scheme mentioned below.”.

(b) Ar y diwedd, ychwaneger y canlynol —

“National Assembly for Wales’s Small Business Rate Relief

From 1 April 2007 occupiers of —

(a) certain hereditaments with a rateable value of £2,000 or less are entitled to rate relief at 50% of the full rates bill;

(b) certain hereditaments with a rateable value of more than £2,000 but not more than £5,000 are entitled to rate relief at 25% of the full rates bill;

(c) post offices (and hereditaments which include a post office) with a rateable value of not more than £9,000 are entitled to rate relief at 100% of the full rates bill; a

(d) post offices (and hereditaments which include a post office) with a rateable value of more than £9,000 but not more than £12,000 are entitled to rate relief at 50% of the full rates bill.

In the cases of (a), (b) and (d) above billing authorities have discretion to provide relief in respect of all or part of the remaining 50% or 75% as the case may be.”.

(4) Ym mharagraff 1 o Ran II o Atodlen 2—

(a) Yn y nodyn o dan y pennawd “Rhyddhad Ardrethi Gwledig” —

(i) ar ôl y geiriau “O 1 Ebrill 2002 ymlaen” mewnosoder “hyd at 31 Mawrth 2007”; a

(ii) mae trydydd paragraff wedi'i ychwanegu—

“O 1 Ebrill 2007 ymlaen mae'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Gwledig wedi'i ddiddymu ac fe'i disodlir gan gynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach Cynulliad Cenedlaethol Cymru a grybwyllir isod.”

(b) Ar y diwedd, ychwaneger y canlynol —

“Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach Cynulliad Cenedlaethol Cymru

O 1 Ebrill 2007 ymlaen bydd gan feddianwyr—

- (a) hereditamentau penodol ac iddynt werth ardrethol o £2,000 neu lai yr hawl i ryddhad ardrethi o 50% o'r bil ardrethi llawn;
- (b) hereditamentau penodol ac iddynt werth ardrethol o fwy na £2,000 ond nid mwy na £5,000 yr hawl i ryddhad ardrethi o 25% o'r bil ardrethi llawn;
- (c) swyddfeydd post (a hereditamentau sy'n cynnwys swyddfa bost) ac iddynt werth ardrethol o nid mwy na £9,000 yr hawl i ryddhad ardrethi o 100% o'r bil ardrethi llawn;
- (ch) swyddfeydd post (a hereditamentau sy'n cynnwys swyddfa bost) ac iddynt werth ardrethol o fwy na £9,000 ond nid mwy na £12,000 yr hawl i ryddhad ardrethi o 50% o'r bil ardrethi llawn.

Yn achosion (a), (b) ac (ch) uchod mae gan awdurdodau bilio y disgresiwn i ddarparu rhyddhad o ran y cyfan neu ran o'r 50% neu'r 75% gweddilliol yn ôl y digwydd.”.

(5) Nid oes dim yn y rheoliad hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fater gael ei gynnwys mewn unrhyw hysbysiad a gyflwynir o ran unrhyw swm sy'n daladwy o ran unrhyw ddiwrnod cyn 1 Ebrill 2007.